


# Cytundeb Cartref / Ysgol

 <p>Ysgol Gymraeg Aberystwyth</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymreictod</li> <li>• Parchu ein gilydd</li> <li>• Gwneud ein gorau glas</li> </ul>	<p><b>Fel rhiant / gwarcheidwad byddaf yn gwneud fy ngorau i:</b></p>	<p><b>Fel disgybl byddaf yn gwneud fy ngorau i:</b></p>	<p><b>Fel ysgol byddwn yn gwneud ein gorau i:</b></p>
<p><b>Ethos</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• siarad Cymraeg gyda fy mhlentyn.</li> <li>• annog fy mhlentyn i barchu disgyblion eraill</li> <li>• annog fy mhlentyn i wneud ei orau / gorau glas</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• siarad Cymraeg</li> <li>• barchu disgyblion eraill</li> <li>• wneud fy ngorau glas</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau fod y disgyblion yn siarad Cymraeg,</li> <li>• sicrhau fod disgyblion yn parchu eraill</li> <li>• sicrhau fod disgyblion yn gwneud eu gorau glas</li> </ul>
<p><b>Bod yn barod i'r ysgol</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• ddanfôn fy mhlentyn i'r ysgol yn lân a thaclus ac mewn gwisg addas</li> <li>• sicrhau fod offer addas gan fy mhlentyn ar gyfer diwrnod ysgol e.e cās pensiliau, gwisg Addysg Gorfforol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• gadw fy hun yn lân a thaclus</li> <li>• ddod â'r offer cywir ar gyfer gwneud fy ngwaith yn yr ysgol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• hyrwyddo gwisg addas a glendid a thaclusrwydd personol</li> <li>• sicrhau fod y plentyn yn ymwybodol o'r offer sydd angen ar gyfer diwrnod ysgol</li> </ul>
<p><b>Presenoldeb a phrydlondeb</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau fod fy mhlentyn yn bresennol ac yn brydlon bob dydd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• fynychu'r ysgol yn feunyddiol ac yn brydlon</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• annog presenoldeb a phrydlondeb drwy'r amser</li> </ul>
<p><b>Gwaith dosbarth a Gwaith cartref</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• gymryd diddordeb yng ngwaith fy mhlentyn a'i gefnogi tra'n ei gwblhau.</li> <li>• annog fy mhlentyn i wneud ei (g)orau.</li> <li>• sicrhau fod fy mhlentyn yn gwneud y gwaith cartref yn rheolaidd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• wrando ar yr athrawon</li> <li>• gweithio'n galed</li> <li>• wneud yn siwr fy mod yn gwybod yn union beth yw'r dasg gwaith cartref cyn gadael yr ysgol, ei wneud a'i ddychwelyd ar amser ac yn dactus</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• ddysgu'n effeithiol ac yn bwrpasol baratoi eich plentyn mewn ystod eang o destunau o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol ac ar gyfer ei dyfodol osod gwaith priodol a'i farcio'n ystyrlon ac yn rheolaidd osod gwaith cartref rheolaidd</li> </ul>
<p><b>Ymddygiad</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• annog fy mhlentyn i feithrin a datblygu safonau uchel o ymddygiad bob amser</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• ymddwyn yn dda o fewn a thu allan i'r ysgol</li> <li>• ddilyn rheolau'r ysgol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• annog safonau uchel o ymddygiad yn unol â rheolau'r ysgol</li> </ul>
<p><b>Cymorth bugeiliol</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• hysbysu'r ysgol os oes problem sy'n debygol o effeithio ar addysg fy mhlentyn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• adael fy athro wybod os oes unrhyw broblemau gennyf cyn gadael yr ysgol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• wrando ac ymateb i broblemau neu ofidiau yn syth</li> </ul>
<p><b>Cysylltiadau cartref ac ysgol</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• fynychu cyfarfodydd rhieni</li> <li>• ddarllen pob llythyr o'r ysgol ac ymateb iddynt os oes eisiau gefnogi'r ysgol fel bo'r gofyn e.e disgyblaeth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• ddangos pob llythyr a roddwyd i mi gan yr ysgol i'm rhieni</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• gynnal cyfarfodydd rhieni yn rheolaidd adrodd yn rheolaidd ar ddatblygiad, presenoldeb a phrydlondeb eich plentyn yn yr ysgol</li> <li>• eich hysbysu am unrhyw ofid sydd gennym ynglyn â'ch plentyn</li> </ul>
<p><b>Bywyd allgyrsiol yr ysgol</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• gefnogi'r gweithgareddau mae'r ysgol yn ei gynnal, e.e cyngerdd, garddwest</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• fanteisio ar y cyfleoedd sy'n cael ei rhoi i mi yn yr ysgol, e.e nofio, cyrsiau, cyngherddau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• eich hysbysu am ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal neu mae'r ysgol yn rhan ohonynt</li> </ul>
<p><b>Llofnodion:</b></p>	<p><b>Rhiant/ Gwarcheidwad</b></p> <p><i>Dyddiad:</i></p>	<p><b>Disgybl:</b></p> <p><i>Dyddiad:</i></p>	<p><b>Ysgol:</b></p> <p><i>Dyddiad: Medi 2011</i></p>